

MAE PARCH AT AWDURDOD YN EICH DIOGELU

Nodyn i'r siaradwr:

Helpwch y gynulleidfa i feithrin agwedd briodol at awdurdod dirprwyol. Dangoswch fod awdurdod o'r fath yn diogelu ac yn hanfodol er mwyn heddwch a hapusrwydd. Dangoswch ein bod, wrth barchu awdurdod yn cynnal awdurdod brenhiniaeth Jehofah

MAE ANGEN CAEL EIN DIOGELU, FELLY DYLEM BARCHU AWDURDOD (4 mun.)

'Rydym yn byw mewn amser o dryblith mawr; fe ymosodir ar berthynas a sefydliadau o bob math (g90 8/8 9)

Mae hyd yn oed sefydliadau megis llywodraethau, y teulu, a chrefydd yn destun beirniadaeth

Tra nad yw Cristnogion yn cymryd rhan mewn gwrthryfel neu wrthdystiadau, medrwn ddeall pam mae rhai pobl yn ddiogel, ac yn teimlo'n rhwystredig (Preg 8:2-4; w72 263-4; w86 8/15 4, 6)

Mae gwir berygl i bawb ohonom gael ein heffeithio; sut?

Gall dyn yn hawdd gael ei frifo gan dorcyfraith cynyddol, trais, neu ddiffyg parch at gyfraith

Gellir niweidio cysylltiadau teuluol yn ddfrifol o ganlyniad i'r agwedd gyffredin hon, ac mewn rhai ffyrdd gallai'r ysbryd hwn hyd yn oed ein hamddifadu ni o'n llawenydd yn y gynulleidfa Gristnogol (yp 15-16)

Achos sylfaenol llawer o'r problemau hyn yw diffyg parch at awdurdod (w72 261; g87 11/22 30)

Yn wyneb y duedd hon, pa awdurdod dylech chi ei gydnabod? Pam?

EDRYCHWCH I GYFEIRIAD JEHOFAH AM ARWEINIAD YNGLŶN AG AWDURDOD (4 mun.)

Yn groes i'r gweiddi afresymol am annibyniaeth lwyr oddi wrth awdurdod, mae pawb ohonom yn cydnabod awdurdod ac yn elwa oddi wrtho (w72 264-5)

'Rydym yn parchu awdurdod ein corff ac yn ufuddhau iddo—bwyta, cysgu, gwaredu carthion

Ein Creawdwr yw Ffynhonnell yr awdurdod hwn, felly mae ei barchu yn golygu cydweithredu ag Ef

Yn rhesymegol, edrych i gyfeiriad Duw, nid i gyfeiriad dyn amherffaith, am arweiniad ar faterion yn ymwneud ag awdurdod Dynion amherffaith yn aml yn darparu arweiniad sy'n twyllo ac sy'n niweidiol (2Pedr 2:18, 19; g75 10/8 6-7)

Jehofah sy'n gwybod y cwrs gorau ar ein cyfer ni ym mhob sefyllfa (g75 10/8 15-22)

Byddwn yn ystyried tair agwedd ar awdurdod dirprwyol—mewn llywodraeth wladwriaethol, yn y cartref, ac yn y gynulleidfa

Medrwn eich holi eich hun sut 'rydych chi'n parchu awdurdod o'r fath

MAE AGWEDD BRIODOL AT AWDURDOD LLYWODRAETHOL YN HELPU CRISTNOGION (12 mun.)

Wrth ystyried awdurdod dinesig neu lywodraethol, mae'n bwysig eu parchu er mai anodd yw gwneud hynny

'Does dim gwadu'r ffaith fod llawer o swyddogion llywodraethol, ar bob gwastad, yn llwgr

Ac eto, mae Duw yn cyfarwyddo Cristnogion i ymostwng i'r awdurdodau hyn ac i'w parchu (Darllen Rhufeiniaid 13:1, 2)

Mae rheswm da gennym i ymostwng i'r awdurdodau hyn (tp 131-2)

Mae Duw yn caniatáu llywodraethau dynol i fodoli a chadw peth trefn yn y gymdeithas

Mae'r heddlu, y llysoedd, a deddfwyr yn gwasanaethu fel "gwas Duw" (Darllen Rhufeiniaid 13:3, 4) (w90 11/1 15, 20)

Er nad ydym yn edmygu unigolion llwgr, gallwn ddangos parch atynt oherwydd eu swyddogaeth a'u gwaith

Er cydnabod nad ydynt yn berffaith, mae'r awdurdodau hyn yn atal rhag anhrefn a thorcyfraith

Mae'r cynnydd aruthrol mewn torcyfraith mewn ardaloedd pan aeth yr heddlu ar streic yn profi eu bod nhw'n darparu rhywfaint o amddiffyn i'ch person a'ch eiddo; maen' nhw'n eich gwasanaethu chi

Yn ddyddiol fe dderbyniwn ni fudd ac elw arall gan y gweision cyhoeddus hyn (Darllen Rhufeiniaid 13:6, 7)

(Siaradwr: Nodwch enghreifftiau o wasanaethau a dderbyniwn o drethi a delir i lywodraethau [w72 266-7; w90 11/1 20-2])

Mae'n wir y camddefnyddir cronfeydd trethi yn aml, eto cawn elw o'r hyn a iawn ddefnyddir (w90 11/1 24)

Mae swyddogion sy'n camddefnyddio cronfeydd trethi neu yn eu dwyn yn agored i gael eu herlyn ac maen' nhw'n atebol i Dduw; byddai'n anghywir i ni gymryd y gyfraith i'n dwylo'n hun o ran malais

Rhaid i Gristnogion ofalu am eu hagwedd fel y medrant barchu'r awdurdodau sy'n ben

Ydych chi'n ymwybodol o sut mae angen i chi wella: cofnodi treth incwm; cyfreithiau yn ymwneud â'ch busnes, cynnal eich cartref, eich safle cyfreithiol yn y wlad; deddfau yn ymwneud â'ch gyrru, parcio, neu yswiriant?

Mae'n rhaid i rai sydd hyd yn oed wedi bod yn Gristnogion ers amser ofalu parhau i ddangos parch (tp 135)

Mae anwybyddu'r ddeddf mewn pethau ymddangosiadol fychan yn rhoi hyfdra i ddyn i arfer torcyfraith pellach (Preg 8:11)

Mae ufuddhau i ddeddfau'r awdurdodau sy'n ben yn ein hamddiffyn ni ac yn caniatáu cydwybod glir (Rhuf 13:5)

Ymostyngiad cymharol i'r awdurdodau sy'n ben yw cwrs Cristnogion (tp 133-4)

Wrth ufuddhau 'rydym yn cydnabod mai Duw yw'r awdurdod uchaf; rhaid ufuddhau iddo ef yn gyntaf petai gofynion llywodraeth yn gwrthdaro

Gosododd yr apostolion yr esiampl drwy wrthod ufuddhau i orchymyn i beidio â phregethu (Act 4:19, 20; 5:29)

Yn y rhan fwyaf o agweddau bywyd, 'dyw gwrthdaro o'r fath ddim yn digwydd, medrwn felly ddilyn Rhufeiniaid 13:1

Rhaid bod yn ofalus wrth beidio â chydymffurfio â deddf seciwlar, mai oherwydd y byddai hynny'n gwrthdaro a deddf Duw y gweithredwn, nid oherwydd anghyfleustra, nid am ei bod yn ymddangosiadol ddibwys, neu oherwydd na chytunwn â hi

CYNYDDWCH EICH HEDDWCH DRWY GYDNABOD AWDURDOD YN Y CARTREF (12 mun.)

Mae dyn wedi bod mor aflwyddiannus yn adeiladu teuluoedd hapus, unedig fel bod rhai yn honni y bydd y strwythur teulu cyfoes yn methu'n llwyr (g83 5/22 14; g82 8/8 3)

Achos sylfaenol yw methu cydnabod graddau awdurdod mae Duw yn eu darparu ar gyfer yr uned deuluol
Egwyddor sylfaenol awdurdod y teulu yw penteuluaeth (Darllen 1 Corinthiaid 11:3) (*w72 266, 270*)

Fel yn achos ymostwng i'r awdurdodau llywodraethol, y nefoedd yw'r awdurdod uchaf (Col 3:18, 20; *tp 138*)

Gosodir y patrwm gan esiampl Crist yn gofalu'n gariadus am ei gynulleidfa (*tp 136-7; pe 240*)

Pan fo gŵr yn arfer penteuluaeth â chariad tebyg, mae'n haws i'w deulu ei barchu

Wŷr, ystyriwch a yw eich patrwm chi yn y teulu mewn gwirionedd yn efelychu Crist; rhaid i chi roi cyfrif iddo ef
am y ffordd y gweithredwch eich penteuluaeth

'Dyw bod yn benteulu ddim yn golygu fod gofyn i chwi wneud *pob* penderfyniad na llywodraethu dros *bob* man-
lynn bywyd

Os nad yw gŵr di-gred yn dilyn cyngor Duw, dylai'r teulu barhau i barchu ei safle (Eff 5:23; 6:1-4)

Mae'r wraig yn atebol i Jehofah am ei hagwedd at ei gŵr ac am yr agwedd y mae'n ei meithrin yn ei phlant

Wrth i'r wraig ofalu am ddyletswyddau'r cartref, parchu penderfyniadau ei gŵr nad ydynt yn gwrthdaro â'r Beibl, a
pharhau i weithio i sicrhau undod a heddwch, dangosir parch at Sylfaenydd priodas

Ni ddylai plant sy'n credu edrych i lawr ar riant nad yw'n credu

Mae arfer awdurdod teuluol yn briodol tuag at blant yn golygu bod ymrwymiad o'r ddwy ochr

Mae rheidrwydd ar rieni i ddisgyblu a chyfarwyddo plant (Diar 13:1, 24; *w61 176*)

Golyga hyn bod yn flaengar yn hyn o beth, nid ceisio ei osgoi oherwydd y gall ymddangos yn annifyr (*g90 1/22 28*)

Bydd parchu'r awdurdod hwn wedi'i roi gan Dduw yn helpu rhieni i wrthod caniatáu i blant reoli

Bydd ieuencid sy'n parchu awdurdod o fewn y teulu yn arddangos hynny drwy gyd-weithredu a bod yn ufudd (*yp 12*)

Weithiau fe fydd plentyn yn ufudd, ond mewn ffordd ddiellon ac â diflastod amlwg neu anniddigrwydd

Nid yw hyn yn dangos gwir barch at awdurdod; rhaid gochel yr agwedd hon (*yp 15-17*)

'Dyw'r Beibl ddim yn cyfyngu ufudd-dod i'r blynyddoedd cyn yr ardegau nac i faterion arbennig chwaith (Diar 4:1)

'Dyw'r ffaith eich bod chi efallai'n agosau at oed cyfreithiol bod yn oedolyn ddim yn diddymu eich cyfrifoldeb chi
i barchu awdurdod eich rhieni (Diar 23:22; *w82 11/1 14*)

Efallai y bydd rhieni'n sefydlu canllawiau arbennig ynglŷn â chymdeithasu â phobl o'r rhyw arall; fe fydd parchu
eu hawdurdod yn helpu ieuencid i dderbyn y rhain

Caiff eich teulu ei helpu a'i amddiffyn drwy barchu awdurdod yn eich cartref

Fe fwynhewch heddwch cynyddol yn y cartref, ac osgoi llawer o'r poendod ddaw i ran y rhai sy'n ddiffygiol mewn parch

Mae datblygu parch at awdurdod fel hyn hefyd yn helpu i barchu awdurdod mewn meysydd eraill

MAE AWDURDOD O FEWN Y GYNULLEIDFA YN SEILIEDIG AR AIR DUW (9 mun.)

Gan fod heddwch a llwyddiant yn y teulu (wedi eu trefnu gan Dduw) yn ymwneud â pharchu awdurdod, gallwn ddisgwyl
gweld awdurdod yn y gynulleidfa Gristnogol (hefyd wedi'i drefnu gan Dduw) a heddwch yn deillio o hynny

Cyflwynir arwydd o'r awdurdod hwn a'n rhan ni ynddo yn 1 Pedr 5:1-3 (Darllenwch)

Cyffelybir henuriaid, neu oruchwylwyr, i fugeiliaid; fe fyddem yn disgwyl iddynt arfer awdurdod cariadus

Mae'r adnodau hefyd yn awgrymu y bydd y "praid," nid yn wrthryfelgar, ond yn fodlon cael ei arwain

Mae'r goruchwylwyr cariadus hyn yn haeddu ein parch (1Tim 5:17; *tp 139-40*)

Maen' nhw'n cyflwyno Gair Duw wrth ddisgyblu'r afreolus, ac felly'n helpu pawb ohonom

Mae goruchwylwyr hefyd yn gweithio'n galed i baratoi eu rhan ar gyfer y cyfarfodydd ac i arwain trefniadau'r gynulleidfa

Fe ddangosir ein parch priodol at yr awdurdod hwn drwy inni fod yn ufudd (Darllen Hebreaid 13:17) (*w89 9/15 22*)

Fe all henuriaid ddarparu cyngor seiliedig ar y Beibl, megis ynglŷn â chlebran neu or-yfed (*w89 9/15 24-5*)

'Ydyn ni yn diystyru cyngor oherwydd ein bod yn 'nabod yr henuriad sy'n ei roi, gan anwybyddu ei fod yn seiliedig
ar y Beibl?

Gwell yw derbyn cyngor o'r fath yn ostyngedig, gan ein harchwilio'n hunain ynglŷn â'n hangen posibl amdano

Bydd parchu'r awdurdod hwn yn helpu'r holl gynulleidfa

Fe wyddom y bydd yn llwyddo, gan ei fod yn seiliedig ar Air Duw

Bydd y gynulleidfa yn arddangos harmoni ac undod, heb unrhyw islif o anghydweld neu wrthryfel

BYDD PARCHU AWDURDOD YN EICH DIOGELU AM BYTH (4 mun.)

Os meithrinwn barch at awdurdod Jehofah, bydd ufuddhau i awdurdod llai yn haws

'Does dim rheswm dros gredu y bydd Jehofah yn newid ei ddull sylfaenol o ymwneud â phobl pan fydd y byd newydd yma

Yn amlwg, bydd Jehofah yn parhau i weinyddu pethau drwy awdurdod dirprwyol (*w72 273*)

Gallwn ddisgwyl y bydd y tad yn dal i gymryd yr arweiniad yn nhrefn y teulu a bod yn gyfrifol i Dduw

Ymddengys y bydd cynrychiolwyr daearol yn arfer awdurdod mewn materion eraill (*w89 9/1 22*)

Fe fydd y parch at awdurdod dirprwyol a feithrinwn 'nawr yn ein helpu i fod yn gymwys ar gyfer y byd newydd

Fe fyddwn ni'n dangos, 'nawr ac yn y byd newydd, ein bod yn arddel awdurdod brenhinol Jehofah a'i ffordd e o wneud
pethau

Felly, fe fydd ein parch at awdurdod yn ddiogelwch a bendith dragwyddol i ni

(Glynwch yn glôs wrth y deunydd a amlinellwyd, a chadw at yr amser a nodwyd ar gyfer pob adran. 'Does dim angen darllen
pob testun a grybwyllir)